Cyd-gyngor Cymwysterau

AQA	CBAC	CCEA	City & Guilds	Edexcel	OCR	SQA

Cynhyrchwyd ar ran AQA, CBAC, CCEA, Edexcel ac OCR

Hysbysiad i Ganolfannau

Y bobl sy'n bresennol yn yr ystafell arholiadau

Hoffai cyrff dyfarnu'r CGC ddarparu mwy o arweiniad ac eglurhad am rôl staff y ganolfan, ar wahân i swyddogion arholiadau a goruchwylwyr, yn yr ystafell arholiadau.

Mae **adran 8, tudalen 16,** dogfen y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau* yn egluro pwy all fod yn bresennol yn yr ystafell arholiadau.

Mae'n ddyletswydd ar bennaeth y ganolfan bob amser i gynnal gonestrwydd yr arholiad ac i sicrhau bod goruchwylwyr sydd wedi derbyn hyfforddiant llawn yn eu lle ar gyfer arholiadau a phrofion. **Rhaid** i oruchwylwyr fod wedi derbyn hyfforddiant i ymgymryd â'u dyletswyddau yn ôl **Adran 6, tudalen 12,** dogfen y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau.*

Staff y ganolfan heblaw am swyddogion arholiadau a goruchwylwyr y cyfeirir atynt yn y rheolau canlynol.

Gall pennaeth y ganolfan gymeradwyo aelodau o staff y ganolfan i fod yn bresennol ar gychwyn yr arholiadau. Pan fydd aelodau o staff yn mynd i mewn i ystafell arholiadau, **rhaid** iddynt ddweud wrth y goruchwyliwr hŷn a/neu'r swyddog arholiadau pwy ydynt a pham maen nhw yno.

Ar ôl iddynt dderbyn cymeradwyaeth benodol gan bennaeth y ganolfan ac i hynny gael ei gytuno â'r swyddog arholiadau, mae gan aelodau o staff canolfan swyddogaeth glir iawn. Yn bennaf:

- cynorthwyo i adnabod ymgeiswyr;
- ymdrin ag unrhyw faterion disgyblu;
- gwirio bod y papur cwestiynau cywir wedi'i roi i'r ymgeiswyr, (yn enwedig pan fydd papurau opsiynol neu haenol dan sylw);
- gwirio bod gan yr ymgeiswyr yr offer a'r deunyddiau priodol ar gyfer yr arholiad;
- defnyddio'r wybodaeth y bydd y swyddog arholiadau neu'r athro pwnc wedi'i darparu, nodi a yw'r ymgeiswyr wedi'u paratoi am y gweithiau gosod y cyfeirir atynt ar y papur cwestiynau.

Ni all aelodau o staff canolfan, o dan unrhyw amgylchiadau:

- fod yn bresennol ar ddechrau'r arholiad ac yna eistedd a darllen papur cwestiynau'r arholiad cyn gadael yr ystafell arholiadau;
- mynd i mewn i'r ystafell arholiadau, heb wahoddiad, gyda'r unig fwriad o gael edrych ar bapur cwestiynau'r arholiad;
- cael gweld papur cwestiynau'r arholiad **oni bai** bod naill ai'r swyddog arholiadau neu oruchwyliwr yn gwneud cais pendant iddo wneud hynny. Er enghraifft, nodwyd bod gwall argraffu posibl wedi digwydd ac, yn absenoldeb cywiriad, bod angen i'r swyddog arholiadau gael gwirio hyn gan yr athro pwnc perthnasol cyn cyfeirio'r achos yn ôl at y corff dyfarnu;
- rhoi unrhyw arwydd o'u barn am bapur cwestiynau i'r ymgeiswyr, naill ai ar lafar neu fel arall, os bu cais iddynt archwilio'r cynnwys;
- cyfathrebu â'r ymgeiswyr, ac eithrio mewn profion Celf wedi'u hamseru ac arholiadau Ymarferol Gwyddoniaeth, neu wrth gynnal disgyblaeth yn yr ystafell arholiadau. Mae'r cyfyngiad hwn yn berthnasol hefyd i ddarllen cyfarwyddiadau'r papur cwestiynau i'r ymgeiswyr;
- mynd i mewn i'r ystafell arholiadau a mynd at ymgeiswyr, naill ai i'w hannog i roi cynnig ar yr arholiad neu i gefnogi ac annog yn gyffredinol;
- mynd i mewn i'r ystafell arholiadau a darllen sgriptiau ymgeiswyr.

Gellir cynnig cefnogaeth ac anogaeth ar unrhyw adeg tan y bydd yr ymgeiswyr yn mynd i mewn i'r ystafell arholiadau. O'r eiliad honno ymlaen maen nhw o dan amodau arholiad a rhaid cadw'n gaeth at y protocolau.